
CYD-BWYLLGOR GWE
01/08/2024
COFNOD CYHOEDDUS

Yn bresennol:

Cynghorwyr: Dafydd Roberts (Cyngor Sir Ynys Môn), Diane King (Cyngor Sir Ddinbych), Julie Fallon – Cadeirydd (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Mared Eastwood (Cyngor Sir y Fflint), Phil Wynn (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam) a Beca Brown (Cyngor Gwynedd).

Swyddogion Heb Bleidlais: Rhys Hughes (Cyngor Sir Ynys Môn), Karen Evans (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), Clare Scanlon (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) a Geraint Davies (Cyngor Sir Ddinbych)

Swyddogion Cyngor Gwynedd (Yr Awdurdod Lletyol): Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr – Gwynedd), Dewi Morgan (Swyddog Cyllid Statudol – Gwynedd), Iwan Evans (Swyddog Monitro – Gwynedd, Sion Huws (Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau – Gwynedd) a Geraint Owen (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwynedd)

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Manon Williams (Cynrychiolydd Ysgolion Cynradd), Paul Smith (Cynrychiolydd Ysgolion Uwchradd), Marc Berw Hughes (Cyngor Sir Ynys Môn), Dr Lowri Brown (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Claire Homard (Cyngor Sir y Fflint) a Gwern ap Rhisiart (Cyngor Gwynedd)

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

3. MATERION BRYG

Ni chodwyd unrhyw faterion bryg.

4. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 12, Rhan 4, 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraff yma yn berthnasol oherwydd bod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am unigolion penodol sydd â hawl i breifatrwydd. Ar y pwynt yma nid oes penderfyniad yn cael ei wneud ac mae angen trafod y bwriad. Nid oes unrhyw fudd cyhoeddus sydd yn galw am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion yma fyddai'n gorbwyso hawliau'r unigolion yma. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus yn disgyn o blaid cadw'r wybodaeth yn eithriedig.

5. AIL STRWYTHURO ARFAETHEDIG O UWCH DÎM RHEOLI GwE

Cyflwynwyd adroddiad gan Prif Weithredwr Cyngor Gwynedd yn cynnig cynllun ailstrwythuro arfaethedig o Uwch Dîm Rheoli GwE, er dibenion effeithiolrwydd busnes, o ystyried bod y consortiwm yn dirwyn i ben ar y 31ain o Fawrth 2025.

Trafodwyd cynnwys yr adroddiad ac ystyriwyd yr argymhellion a gynhigiwyd.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cynnig ailstrwythuro arfaethedig o Uwch Dîm Rheoli GwE, yn unol â'r argymhellion,

1. Yng ngwyneb gweithredu proses dirwyn GwE i ben fod y strwythur rheoli interim diwygiedig ar gyfer y cyfnod 1 Medi i 31 Mawrth wedi ei gymeradwyo a bod y trefniadau ar gyfer gwireddu hyn yn cael eu gweithredu yn unol a'r adroddiad .
2. Bod Bwrdd Trosglwyddo yn cael ei sefydlu i sicrhau trosglwyddiad effeithiol o fodel GwE i'r strwythur partneriaeth newydd.
3. Bod Rheolwr Prosiect yn cael ei benodi i gynorthwyo'r Bwrdd Trosglwyddo gyda'i waith.
4. Bod Prif Weithredwr yr Awdurdod Lletya, mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, Swyddog Monitro a'r Swyddog Adran 151, yn cael ei awdurdodi i wneud y penderfyniadau angenrheidiol i hwyluso gweithrediad y penderfyniad hwn.

Dechreuodd y cyfarfod am 14:00 a daeth i ben am 14:35.

CADEIRYDD